Cystic Fibrosis Trust

# A allech chi newid dyfodol ffeibrosis systig?



**Cyn bod modd rhoi unrhyw feddyginiaethau neu driniaethau newydd i bobl sydd â ffeibrosis systig, mae'n rhaid iddyn nhw fod yn destun llawer o 'dreialau clinigol'. Golyga hyn eu bod yn cael eu profi gan bobl yn union fel chi, sy'n byw gyda ffeibrosis systig heddiw.**

Bydd y treial yn ceisio canfod:

- a yw'r feddyginiaeth neu'r driniaeth yn gwneud yr hyn y mae pobl yn ei ddisgwyl?
- pa mor dda y mae'n gweithio?
- a yw'n well na thriniaethau sy'n bodoli ar hyn o bryd sy'n gwneud yr un peth?

Mae cymryd rhan mewn treial clinigol yn broses gyffrous, ac fe allai arwain at rai canlyniadau anhygoel iawn. Fe allech fod yn un o'r bobl gyntaf i roi cynnig ar feddyginiaeth neu dechneg ffisiotherapi newydd addawol.



Mae Lola, 15 oed, wedi ymuno â threial clinigol sy'n para dwy flynedd

> **"Mae wedi gwneud fy mywyd i'n haws, a dwi'n teimlo fel petai pwysau wedi cael eu codi oddi ar fy mrest. Achos bod fy iechyd bellach yn sefydlog, mae fy nheulu a minnau yn gallu cynllunio ymhellach i'r dyfodol ar gyfer gwyliau a diwrnodau allan. Pan dwi'n edrych yn ôl, dwi'n sylweddoli nawr pa mor wael oedd fy iechyd, er nad oedd yn ymddangos felly ar y pryd."**
>
> Lola

Darllenwch stori lawn Lola

**cysticfibrosis.org.uk/lola**



Caitlin, 17, took part in a clinic trial at Leeds Hospital

> **“Byddwn i’n dweud wrth unrhyw un sy’n ystyried ymuno â threial i holi’ch meddyg ac yna’ch teulu am eu barn. Byddai wir yn golygu’r byd i mi, fy nheulu a’m hanwyliaid pe bai’r treial clinigol y cymerais ran ynddo yn helpu i gyflwyno triniaethau mwy effeithiol ar gyfer ffeibrosis systig.”**
>
> Caitlin

**Darllenwch stori lawn Caitlin**

**cysticfibrosis.org.uk/caitlin**

## Oes gennych chi ddiddordeb? Dysgwch ragor!

Beth am gael sgwrs gyda’ch tîm ffeibrosis systig? Mae pob treial yn wahanol, felly efallai yr hoffech chi ofyn:

- A oes unrhyw dreialon y galla i gymryd rhan ynddyn nhw?
- Pa mor hir fydd y treial yn ei gymryd a sawl ymweliad ychwanegol i’r ysbyty fydd angen i mi ei wneud?
- Beth sy’n rhaid i mi ei wneud fel rhan o’r treial?
- A fydd fy nyrs neu feddyg yn rhedeg y treial, neu a fydda i’n cwrdd ag aelodau newydd o’r tîm? Neu a fydda i’n gorfod mynd i ganolfan Ffeibrosis Systig wahanol?

Ewch i’n gwefan:
**cysticfibrosis.org.uk/youngpeopletrials**

Cysylltwch drwy e-bostio:
**clinicaltrials@cysticfibrosis.org.uk**

Ewch ati eich hun i chwilio am gyfleoedd i gymryd rhan mewn treial ar ein Traciwr Treialon ar:
**cysticfibrosis.org.uk/trialstracker**

Rhowch adborth i ni ar
**infoteam@cysticfibrosis.org.uk**

**Cofiwch, hyd yn oed os byddwch chi’n penderfynu dechrau treial, gallwch newid eich meddwl yn nes ymlaen.**

**Gallai eich cyfraniad mewn treial heddiw greu dyfodol mwy disglair i chi’ch hun ac i eraill sy’n byw gyda ffeibrosis systig.**
**Felly, a allech chi newid dyfodol ffeibrosis systig? Siaradwch â’ch tîm ffeibrosis systig heddiw.**

© Cystic Fibrosis Trust 2026. Registered as a charity in England and Wales (1079049) and in Scotland (SC040196). A company limited by guarantee, registered in England and Wales number 3880213. Registered office: Cystic Fibrosis Trust, 33 Creechurch Lane, London EC3A 5EB

**Uno am fywyd** *heb gyfyngiadau*